**CFA19 UCAC**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: UCAC | Evidence from: UCAC

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

**PRIF RWYSTRAU**

- Cyfleoedd i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol
- Y duedd i ystyried fod y Gymraeg yn perthyn i rai carfannau/oedrannau yn unig
- Nid yw siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd â chanrannau isel o siaradwyr Cymraeg, yn cael cyfle i ymarfer y Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau
- Gan fod dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn isel, maent yn 'cymryd yn ganiataol' nad yw pobl yn siarad Cymraeg ac nid ydynt yn dechrau sgyrsiau yn y Gymraeg. O'r herwydd, collir ambell i gyfle i siarad Cymraeg naill ai yn anffurfiol, neu i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mewn rhai ardaloedd, mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg mewn rhai grwpiau oedran, ac o'r herwydd mae rhai carfannau yn teimlo'n ynysig ac mae'r cyfleoedd i wneud rhai mathau o weithgareddau yn brin.
- Os yw'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn isel, mae'n heriol trefnu gweithgareddau Cymraeg a fydd yn denu niferoedd rhesymol i ddigwyddiadau. Nid yn unig mae canran y siaradwyr Cymraeg yn isel, ond ni ellir disgwyl chwaith i bawb o'r un oedran fod â diddordeb yn yr un meysydd
- Mae pobl yn byw bywydau prysur iawn ac yn ei chael yn anodd rhoi amser i roi sylw i'r Gymraeg e.e. dysgu'r iaith, mynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg

**BETH ALLAI HELPU**

- Cyflwyno rhai elfennau Cymraeg mewn gweithgareddau cyfrwng Saesneg sydd eisoes yn bodoli
- Mwy o weithgareddau hwyliog drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. clybiau ieuenctid, amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer pob oedran
- Sicrhau cyfleoedd i gyn-ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol a sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion sydd

wedi caffael rhywfaint o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg

- Gweithio mewn partneriaethau – sicrhau bod pob cymdeithas/menter sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn dod at ei gilydd i drefnu gweithgareddau. Mae bod yn rhan o rywbeth bach yn gallu teimlo'n ynysig a digalon, ond mae gweld eich bod yn rhan o rywbeth mwy yn brofiad cadarnhaol
- Gweithio gydag ysgolion er mwyn a) adnabod y 'cwsmeriaid' b) hysbysebu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg c) trafod y posibiliadau a'r bylchau yn y ddarpariaeth ch) ymgysylltu gyda'r disgyblion i wybod pa fath o weithgareddau yr hoffent eu gweld yn eu hardal
- Sicrhau nad yw gweithgaeddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn elitaidd ac yn costio'n ddrud. Nid ydym am amddifadu unrhyw unigolyn o'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg am resymau ariannol
- Sicrhau bod gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hyrwyddo yn y gymuned. Mae angen sicrhau bod yna gyfathrebu effeithiol gyda'r gymuned yn ei chyfanrwydd, gan ddefnyddio pob dull a modd o gyfathrebu
- Annog gweithwyr sy'n medru siarad y Gymraeg i ddefnyddio bathodynnau 'Cymraeg Gwaith', fel bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Annog busnesau a gwasanaethau i hyrwyddo'r Gymraeg, gan sicrhau fod cyflogeion sy'n gallu'r iaith yn ei defnyddio
- Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd ac o'r herwydd yn awyddus i weld eu plant yn siarad Cymraeg
- Sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg a nodi'r ffyrdd amrywiol sydd o ddysgu'r iaith – cyfleoedd o fewn y gweithle, dosbarthiadau wyneb yn wyneb yn y gymuned, gwersi ar-lein
- Sicrhau bod cyllid digonol i ariannu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Sicrhau bod strategaethau ar waith yn yr ardaloedd lle ceir canrannau is o siaradwyr Cymraeg i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu. Dylai'r strategaethau hyn fod yn rhan o system datblygiad proffesiynol y gweithlu, gyda chefnogaeth i'r gweithlu wrth iddynt symud o gam i gam ar hyd y continwwm ieithyddol.
- Mae angen edrych ar sut y gall unigolion ddyblu eu defnydd o'r iaith, gan eu cefnogi ar y daith a rhoi gwybod iddynt am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Dylai'r wybodaeth fod yn glir ac yn hygyrch, yn hytrach na gosod y cyfrifoldeb ar yr unigolyn

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

- Clybiau chwaraeon a chyfle i gael hyfforddiant/ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gofodau gyda'r cyfarpar technegol diweddaraf – annog defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig bod pobl yn sylweddoli fod y Gymraeg yn perthyn i'r unfed ganrif ar hugain.

- Gweithgareddau amrywiol sydd at ddant pobl ifanc
- Gofodau croesawgar e.e. caffis Cymraeg, lle mae modd i bobl ymlacio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gofodau 'cynnes' a gofodau â mynediad i'r we, fel bod pobl yn gallu gweithio 'o bell', a'r gofodau hyn yn amlwg yn llefydd lle gellir siarad Cymraeg – cyfuno efallai gyda chaffi Cymraeg
- Mae ymgysylltu cyson gyda phobl ifanc yn hollbwysig, er mwyn darganfod beth sydd at eu dant. Does dim pwynt trefnu gweithgareddau os nad ydynt yn apelio
- Dylai fod cyfleoedd i gaffael yr iaith yn ifanc iawn – gorau po gyntaf a dylid sicrhau bod cyfleoedd i barhau i ddefnyddio'r iaith. Mae dilyniant ieithyddol yn bwysig
- Angen mwy o waith ar fanteision dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Rhoi sylw i'r ffaith bod y rhan fwyaf o bobl ar draws y byd yn ddwyieithog neu'n amlieithog
- Cyfleoedd trochi iaith hwyr i deuluoedd ac nid yn unig i ddisgyblion ysgol

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

- Creu gwyliau, gan godi ymwybyddiaeth yn y gymuned
- Digwyddiad ysgol, e.e gweithdai a gwyliau cerddorol sy'n ymestyn i'r gymuned a'r ysgolion cyfrwng Saesneg lleol
- Gweithgareddau cysylltiedig â thueddiadau cenedlaethol e.e. Y Fari Lwyd, gwiethgareddau Mentrau Iaith
- Gweithio gyda chymdeithasau pêl droed a rygbi i gynnal digwyddiadau cyn gwyliau mawr
- Gweithgaredau lle mae nifer o bartneriaid yn dod ynghyd ac yn cydweithio i gynnal gweithgareddau Cymraeg

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

- Yn aml iawn, negeseuon byr sy'n ymddangos ar y cyfryngau cymdeithasol, felly byddai darllen ambell i neges yn Gymraeg yn ennyn hyder unigolion wrth iddynt weld eu bod yn deall negeseuon byr o'r fath.
- Mae'r gallu i wirio a sicrhau cywirdeb drwy ddefnyddio gwirydd digidol ar gyfer sillafu a gramadeg e.e. Cysill yn mynd i fod o fudd i rai unigolion ac yn mynd i ennyn eu hyder. Mae technoleg o'r fath yn cynnig hyblygrwydd ar nifer o lefelau – amser, lle, lefel ayb
- Mae modd defnyddio rhaglenni caffael iaith e.e. Duolingo, gan ddysgu iaith yn eich amser eich hunan, sy'n ei gwneud yn fwy cyfleus ac yn cynnig y cyfle i ddysgu iaith i fwy o bobl. Mae yna elfen o waith wedi ei bersonoli
- Mae technoleg yn cael gwared ar rwystrau daearyddol

- Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gweld fod yr iaith Gymraeg yn iaith sy'n gweddu i'r dechnoleg fodern
- Mwy o lwyfannau digidol sy'n gallu helpu rhieni di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg.  Mae'n bwysig bod y wybodaeth hon ar gael am ddim i rieni

* Sicrhau bod adnoddau ar gael i rieni di-Gymraeg i hybu'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol -

e.e rhestrau o gerddoriaeth Gymraeg ar Spotify; adnoddau digidol cyfrwng Cymraeg

- Cydweithio gyda Adnodd er mwyn creu mwy o adnoddau digidol ar gyfer rhieni di-Gymraeg e.e  llyfrau sain, felly yn sicrhau bod plant yn clywed geiriau'n cael eu hynganu'n gywir

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Mae Eisteddfodau cenedlaethol a gwyliau Cymraeg wedi creu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac mae enghreifftiau niferus o Eisteddfodau a gwyliau'n gadael gwadddol.  Mae gweithgareddau a symbylwyd gan ddyfodiad Eisteddfod neu ŵyl i ryw ardal wedi parhau ymhell wedi i'r Eisteddfod neu'r ŵyl ddod i ben.

- Mae gwyliau cerddorol hefyd yn annog carfan o bobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd Gymraeg – pobl na fyddai'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg fel rheol.
- Mae bod yn rhan o ŵyl genedlaethol neu ddigwyddiad o statws yn creu ymdeimlad o berthyn i rywbeth mwy ac yn aml yn anogaeth i siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd lle nad oes llawer o siaradwyr eraill.  Mae digwyddiadau o'r fath hefyd yn annog rhai i ddysgu'r iaith ac maent yn sgil hynny yn ymuno â'r gymuned o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

- Sicrhau bod y digwyddiadau yn cael eu hyrwyddo yn y gymuned o'r cychwyn cyntaf – efallai cynnal digwyddiadau gydag ystod o bobl o gymunedau eraill tebyg yn trafod eu profiadau pan ddaeth yr Eisteddfod/digwyddiad penodol i'w cymuned nhw.  Cael rhywun sydd wedi dysgu Cymraeg yn sgil yr Eisteddfod i rannu profiad.
- Byddai'n syniad hefyd i holi barn pobl leol mewn da bryd, er mwyn ymateb i ofynion y gymuned leol.  Byddai ymgysylltu gyda phobl sydd eisoes yn siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â darpar siaradwyr Cymraeg a rhai nad ydynt wedi dangos diddordeb yn y Gymraeg hyd yma yn syniad da.

- Mae'n bwysig hefyd nad oes dim yn cael ei gymryd yn ganiataol. Mae'n rhaid bod yn ymwybodol fod yna bobl yn ein cymunedau nad ydynt yn gwybod beth yn union yw Eisteddfod. Rhaid rhoi gwybod i'r gymuned leol beth sy'n digwydd a sicrhau eu bod yn ymwybodol fod croeso iddynt gymryd rhan/mynychu'r digwyddiad.

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

- Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso ac yn sicrhau bod digonedd o gyfleoedd i unigolion gaffael y Gymraeg – cylchoedd Ti a Fi, cylchoedd chwarae, digon o ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd pob unigolyn a sicrhau bod dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob oedran, gallu a diddordeb. Mae cynyddu canran y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd yn allweddol, gyda'r nod o allu darparu cymaint o addysg cyfrwng Cymraeg â phosibl yn y tymor hir. Mae sicrhau cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn allweddol, os nad oes ysgol Gymraeg yn y cyffiniau. Mae'n bwysig bod cyfleoedd i gaffael ac ymarfer y Gymraeg yn cael eu hariannu. Mae'n bwysig hefyd fod Llywodraeth Cymru yn dangos esiampl ac yn rhoi statws i'r Gymraeg o ran iaith weinyddol a iaith cyfathrebu – gan ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol a heb gyfieithu popeth o'r Saesneg.
- Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion mae'n bwysig fod y Llywodraeth yn cydweithio gyda sefydliadau addysg o bob math, gan gynnwys sefydliadau hyfforddi athrawon (AGA). Mae angen sicrhau fod gennym y gweithlu angenrheidiol.
- Mae gweithio ar y cyd gyda mudiadau e.e. yr Urdd, CFfI yn bwysig iawn.
- Mae'n bwysig sicrhau bod cyllid teg a digonol yn cael ei neilltuo i hyrwyddo'r Gymraeg a sbarduno twf.
- Os am gynnal digwyddiadau o safon, rhaid wrth gyllideb i helpu cynnal digwyddadau o'r fath a hefyd i helpu cynnal gofodau Cymraeg addas i allu defnyddio'r iaith yn gymdeithasol